# Ceiliogod Llanelli gan Donald M. Treharne

Gwnaethpwyd defnydd helaeth o'r ceiliog fel sail i addurno crochenwaith yn Ewrop ac ym Mhrydain dros y blynyddoedd; er enghraifft, fe'i gwelir yn aml ar grochenwaith *Quimper* yn Llydaw. Ym Mhrydain cartrefodd y ceiliog yn *Wemyss* yn yr Alban, ym Mryste, yng Ngorllewin Lloegr yn *Torquay* ac ar grochenwaith Llanelli.




Llun 1, Soser yn dangos y ceiliog.



Llun 1a, Hambwrdd yn dangos y ceiliog a'r iâr.

Mae'r ceiliogod a baentiwyd yng nghrochendy De Cymru yn Llanelli gan Samuel Walter Shufflebotham yn y traddodiad a ddeilliodd o *Wemyss* a Bryste. Yn *Llun 1* gwelir un ohonynt ar soser a fu, un amser, yn rhan o set o lestri a roddwyd i ferch capten llong o Landudoch yn anrheg priodas. Yn *Llun 1(a)* gwaith Shufflebotham hefyd yw'r ceiliog a'r iâr ar yr hambwrdd a gynhrychwyd yn Llanelli. Daeth Shufflebotham i weithio yno o Fryste. Dengys *Llun 2* geiliog a iâr ar lestr o Fryste a baentiwyd gan George Stuart. Mae'r ddau geiliog a iâr yn amlwg yn perthyn i'r un traddodiad sydd â bys hir yn arwain i gyfeiriad *Wemyss* yn yr Alban lle dysgodd George Stuart ei grefft.

Tybed a fu'r traddodiad yma yn ffactor yn natblygiad y llestri a addurnwyd â cheiliogod a adnabyddir bellach fel Ceiliogod Llanelli? Ceiliog Llanelli sydd yn *Llun 3* ac y mae'n enghraifft o'r hyn a drafodir yn yr erthygl yma. Ar ganol y plât y mae ceiliog glas sy'n amlwg yn byw yn yr awyr agored ar dir lle mae gwyrddni a blodau yn tyfu. Mae'r addurno i gyd yn elfennol wrth gwrs. Mewn llyfr diweddar y mae Peter Lord yn gosod y math yma o baentio gyda'r traddodiad gwerinol hwnnw 'na ddylid ei ddibrisio'. Gwaith llawrydd yw'r addurno ar ganol y plât i gyd.

Addurnwyd ymylon y plât â spwng. Yn y math yma o addurno defnyddid coesyn spwng wedi ei naddu i batrwm arbennig. Gorchuddiwyd y patrwm ar y coesyn â phaent a'i ddefnyddio i greu addurniadau ar y llestri. Defnyddiwyd y dechneg yma gan grochendai ledled y byd o Ewrop a'r America hyd at y Dwyrain Pell ac y mae hanes y dechneg yn mynd yn ôl rhyw gan mlynedd a hanner.

Mae *Lluniau 4, 5 a 6* yn dangos rhai enghreifftiau eraill o batrymau spwng a ddefnyddiwyd yn Llanelli. Hyd yn hyn nid oes astudiaeth o'r amrywiaeth o batrymau sbwng ar gael ond digon yw dweud eu bônt yn lluosog.

Gwelir yn awr ac yn y man enghreifftiau o blatiau ceiliogod lle yr addurnwyd yr ymylon â phaentio llawrydd fel yn *Llun 7*. Mae'r ymyl yma mewn glas a'i ddwysedd yn newid gyda symudiadau'r brws a ddefnyddiwyd i baentio. Addurn pellach yw'r blodau coch o gylch y plât.

Yn llyfr Gareth Hughes a Robert Pugh ar grochenwaith Llanelli (*'Llanelly Pottery'*, 1990 Llanelli Borough Council) y mae llun ar dudalen 38 o blât ceiliog tebyg iawn i'r un yn *Llun 7* uchod lle'r addurnwyd yr ymyl â gwaith llaw mewn glas ond heb y blodau. Eiddo Mrs Annie Anfield oedd y plât yn y llyfr. O sicrwydd yr ydym yn gwybod mai modryb Mrs Anfield, Miss Sarah Jane Roberts, a baentiodd y plât ceiliog yma yn y crochendy yn Llanelli yn 1910. Merch i Thomas Roberts oedd Sarah, gŵr a symudodd i Lanelli fel un o'r crochenwyr cyntaf i ddod o *Burslem* yn Swydd Stafford. Ganwyd y ferch yn Llanelli yn 1859 a bu farw yn 1935 yn 76 mlwydd oed.



Llun 2, Y ceiliog a'r iâr ar lestr o Fryste.



Llun 3, Ceiliog Llanelli.